
TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# City & Guilds Cynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur Lefel 1



**Yn gryno**

Bydd y cwrs hwn yn rhoi dealltwriaeth i chi o waith modelu parametrig Cynllunio drwy Gymorth Cyfrifiadur, o ran caledwedd, meddalwedd ac amgylchedd. Bydd y cwrs Cynllunio drwy Gymorth Cyfrifiadur yn caniatáu i chi ddewis o chwe chymhwyster arall, yn ddibynnol ar eich anghenion a'r gofynion mynediad.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer……**Unrhyw un sy'n diddori mewn Cynllunio drwy Gymorth Cyfrifiadur.

**Cynnwys y cwrs**

Mae'r cwrs yn eich galluogi i edrych ar gyfansoddiad nodweddiadol system fodelu barametrig Cynllunio drwy Gymorth Cyfrifiadur, ac yn cynnwys:

TG, caledwedd Cynllunio drwy Gymorth Cyfrifiadur a systemau gweithredu sylfaenol cysylltiedig
Technegau rheoli ffeiliau
Proses fodelu parametrig, rhyngwyneb defnyddiwr a sut i gael cymorth a thiwtorialau

Trefnau er mwyn creu a chadw brasluniau
Trefnau er mwyn cynhyrchu nodweddion allwthiol a chylchol
Defnyddio nodweddion gosodedig i addasu modelau parametrig
Trefnau er mwyn creu cydosodiadau
Defnyddio amgylchedd y cynllun dylunio i gynhyrchu copïau caled

Ar ôl cwblhau'r cwrs byddwch yn ennill Dyfarniad City & Guilds Lefel 1 mewn Cynllunio drwy Gymorth Cyfrifiadur – Modelu Parametrig, a chewch wedyn symud ymlaen i gymhwyster Lefel 2.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes angen cymwysterau ffurfiol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd y cyrsiau'n cael eu rhedeg yn amodol ar isafswm niferoedd myfyrwyr.